# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 3

TRIBIWNLYS ADDYSG CYMRU

### 91 Cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru

(1) Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i barhau a chaiff ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

(2) Mae'r Tribiwnlys i gael—

(a) Llywydd i'r Tribiwnlys,

(b) panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel cadeirydd cyfreithiol y Tribiwnlys ("y panel cadeirydd cyfreithiol"), ac

(c) panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel y ddau aelod arall o'r Tribiwnlys ond nid fel y cadeirydd cyfreithiol ("y panel lleyg").

(3) Mae'r Llywydd i gael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus.

(4) Mae pob aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol i gael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb y Llywydd.

(5) Mae aelodau'r panel lleyg i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Llywydd.

(6) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru—

(a) darparu i awdurdodaeth y Tribiwnlys gael ei harfer gan y nifer hwnnw o dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd, a

(b) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â sefydlu'r Tribiwnlys a'i barhad yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu staff ac adeiladau ar gyfer y Tribiwnlys.

### 92 Y Llywydd ac aelodau'r paneli

(1) Ni chaniateir i berson gael ei benodi'n Llywydd nac yn aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol oni bai ei fod yn bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd.

(2) Ni chaniateir i berson gael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg oni bai ei fod yn bodloni gofynion a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Os yw'r Llywydd, ym marn yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus, yn anaddas i barhau mewn swydd neu'n analluog i gyflawni ei ddyletswyddau, caiff yr Arglwydd Ganghellor (gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus) ei ddiswyddo.

(4) Mae pob aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg i ddal a gadael swydd o dan delerau'r offeryn y mae wedi ei benodi odano.

(5) Ond dim ond gyda chytundeb y Llywydd y caniateir i aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg gael ei ddiswyddo o dan delerau'r offeryn.

(6) O ran y Llywydd neu aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg—
- (a) caiff ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Arglwydd Ganghellor neu (yn ôl y digwydd) i Weinidogion Cymru, a
- (b) mae'n gymwys i gael ei ailbenodi os yw'n peidio â dal y swydd.

### 93 Dirprwy Lywydd y Tribiwnlys

(1) Caiff y Llywydd benodi aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol yn Ddirprwy Lywydd y Tribiwnlys.

(2) Mae person a benodir yn Ddirprwy Lywydd y Tribiwnlys yn dal ac yn gadael y swydd honno yn unol â'r telerau penodi.

(3) Mae person yn peidio â bod yn Ddirprwy Lywydd os yw'n peidio â bod yn aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol.

(4) Caiff person ymddiswyddo fel Dirprwy Lywydd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd.

(5) Caiff Dirprwy Lywydd arfer swyddogaethau'r Llywydd—
- (a) os yw'r Llywydd wedi dirprwyo eu harfer i'r Dirprwy Lywydd,
- (b) os yw swydd y Llywydd yn wag, neu
- (c) os na all y Llywydd eu harfer am unrhyw reswm.

### 94 Tâl a threuliau

Caiff Gweinidogion Cymru—
- (a) talu tâl a lwfansau i'r Llywydd ac unrhyw berson arall mewn cysylltiad â'i wasanaeth fel aelod o'r Tribiwnlys, a
- (b) talu treuliau'r Tribiwnlys.